

cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales



2018/19

Benthyciadau myfyrwyr – Canllaw i amodau a thelerau



 /SFWales

 /SF_Wales

 YouTube /SFWFILM

Cynnwys

1 Canllaw am beth yw hwn?	3
2 Contract eich benthyciad	3
3 Pwy sy'n gwneud beth?	4
4 Eich cyfrifoldebau chi	5
5 Eich cynllun ad-dalu	7
Pryd y byddwch yn ad-dalu	7
Beth fyddwch yn ei ad-dalu	8
Swm y llog a godir arnoch chi	10
6 Sut fyddwch yn ad-dalu	11
Beth sy'n digwydd pan fyddwch yn gyflogedig	11
Beth sy'n digwydd pan fyddwch yn hunangyflogedig	12
Beth sy'n digwydd os byddwch yn teithio neu'n gweithio mewn gwlad dramor	13
Pryd caiff eich benthyciadau eu canslo	13
Beth sy'n digwydd os na fyddwch yn talu ad-daliadau	14
Agosáu at orffen ad-dalu eich benthyciad	14
7 Beth i'w wneud os byddwch yn anfodlon	15
8 Cysylltiadau defnyddiol	16

1 Canllaw am beth yw hwn? 2 Contract eich benthyciad

Mae'r canllaw hwn ar gyfer myfyrwyr sy'n cael benthyciad myfyriwr ar gyfer cwrs israddedig, cwrs ôl-raddedig neu gwrs Addysg Gychwynnol Athrawon (ITE).

Mae'n esbonio'r beth fyddwch yn ymrwymo iddo pan fyddwch yn cael benthyciad.

Mae'n bwysig eich bod yn darllen y canllaw hwn yn ofalus gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth am amodau cyfredol eich benthyciad a'r trefniadau ad-dalu. Dylech gadw copi ohono.

Gallwch weld manylion llawn yr amodau er mwyn cael benthyciadau myfyrwyr yn y Rheoliadau Cymorth i Fyfrwyr perthnasol.

Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfrwyr) (Ad-dalu) 2009, fel y'u diwygiwyd, yn cynnwys yr amodau ynghylch ad-dalu Benthyciadau sy'n Dibynnu ar Incwm.

Mae Rheoliadau Addysg (Benthyciadau ar Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017 yn cynnwys manylion llawn yr amodau er mwyn cael Benthyciad Gradd Meistr Ôl-raddedig.

Gallwch ddarllen y rheoliadau hyn ar-lein ar **www.legislation.gov.uk** neu eu harchebu gan Lyfrfa Ei Mawrhydi (TSO) Ltd (llinell archebu dros y ffôn 0333 202 5070). Neu eu harchebu ar-lein ar **www.tsoshop.co.uk**

Gallai'r rheoliadau newid o bryd i'w gilydd ac mae hyn yn golygu y gallai amodau'ch benthyciad newid hefyd. Caiff y canllaw hwn ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau, a'ch cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod gennych y fersiwn diweddaraf.

Gwybodaeth bellach

Os oes gennych chi gwestiynau am amodau eich benthyciad ar ôl darllen y canllaw hwn, ewch i **www.slc.co.uk/studentloanrepayment**

Pan fyddwch yn cael benthyciad myfyriwr rhaid i chi gytuno ad-dalu'ch benthyciad yn unol â'r rheoliadau sy'n berthnasol ar yr adeg pan fydd yr ad-daliadau'n ddyledus, yn unol â chymau i ddiwygio'r rheoliadau o bryd i'w gilydd.

Mae contract eich benthyciad gyda Gweinidogion Cymru. Mae'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC), sy'n sefydliad dielw'r y llywodraeth, yn gweithredu fel asiant ar eu rhan. Gweler y cais am fenthyciad am ragor o fanylion.

3 Pwy sy'n gwneud beth?

Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC)

Mae SLC yn gyfrifol am:

- dalu'r benthyciadau ar gyfer myfyrwyr o Gymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a'r UE,
- rheoli'ch cyfrif, gan gynnwys ychwanegu llog ac ad-dalu unrhyw ordaliadau,
- casglu ad-daliadau gan y rhai sy'n ad-dalu o wlad dramor, ac
- ateb cwestiynau am eich benthyciad.

Cyllid a Thollau EM (HMRC)

Mae HMRC yn casglu ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr gan gyflogwyr trwy system dreth y Deyrnas Unedig. Os ydych yn hunangyflogedig, byddwch yn ad-dalu trwy'r trefniant hunanasesu pan fyddwch yn llenwi'ch ffurflenni treth.

Eich cyflogwr

Mae'ch cyflogwr yn casglu ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr ar ran HMRC o'ch cyflog yn uniongyrchol, mewn ffordd debyg i dreth incwm (PAYE) a chyfraniadau Yswiriant Gwladol (NICs). Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am y ffordd y cesglir eich ad-daliadau trwy'r system dreth, dylech siarad â'ch cyflogwr.

Rhannu gwybodaeth

Gall HMRC roi gwybodaeth i SLC am eich ad-daliadau yn unol â'r gyfraith. Fodd bynnag, ni all HMRC roi unrhyw wybodaeth i SLC am eich trefniadau treth, gan fod y rhain yn gyfrinachol. Yn ogystal, ni fydd eich cyflogwr na HMRC yn cael unrhyw fanylion am gyfrif eich benthyciad gan SLC, ac eithrio'r ffaith bod gennych chi fenthyciad a pha drothwy ad-dalu sy'n berthnasol i chi (gweler tudalen 7 am fanylion). Mae'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol yn y Deyrnas Unedig yn cynnwys gwybodaeth sy'n cael ei phasio rhwng SLC, HMRC a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

4 Eich cyfrifoldebau chi

Mae angen i chi ddarparu gwybodaeth gyflawn a chywir

Pan fyddwch yn gwneud cais am fenthyciad, bydd yn rhaid i chi roi gwybodaeth benodol fel bod modd casglu ad-daliadau pan fyddant yn ddyledus. Rhaid i chi sicrhau eich bod yn darparu gwybodaeth gyflawn a chywir pan fyddwch yn cael y benthyciad, ac mae'n rhaid i chi ddweud wrth SLC am unrhyw newidiadau i'r manylion hyn:

- yn ystod y broses ymgeisio,
- yn ystod eich cyfnod yn y brifysgol neu'r coleg, a
- nes i chi ad-dalu'ch benthyciad yn llawn.

Os na fyddwch yn rhoi gwybodaeth fanwl a'r wybodaeth ddiweddaraf i SLC, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu tâl cosb neu ad-dalu'r benthyciad ac unrhyw log a chosbau fel un cyfandaliad.

Os na fyddwch yn cadw mewn cysylltiad â ni neu os byddwch yn methu rhoi gwybod i ni am newidiadau i unrhyw rai o'ch manylion personol, codir cyfradd llog o RPI a 3% ar eich benthyciad (gweler tudalen 10), beth bynnag fo'ch incwm.

You must also let SLC know if you:

- newid eich enw, eich rhif ffôn neu fanylion y cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu y telir eich benthyciad iddo,
- newid i'ch prifysgol, eich coleg neu'ch cwrs,
- cael bwrsariaeth, dyfarniad gofal iechyd neu ysgoloriaeth,
- newid cyfeiriad eich cartref, eich cyfeiriad yn ystod y tymor neu gyfeiriad eich rhieni,
- gwybod bod dyddiadau cychwyn neu ddyddiadau gorffen eich cwrs wedi newid,
- peidio dechrau astudio, gadael eich cwrs neu gael eich gwahardd,
- yn absennol o'ch cwrs am dros 60 diwrnod oherwydd salwch,
- yn absennol am gyfnod am unrhyw reswm ac eithrio salwch,
- yn priodi,
- yn bwriadu gadael y wlad, neu'n
- newid eich statws cyflogaeth (er enghraifft o fod yn gyflogedig i fod yn hunangyflogedig).

Rhaid i chi ddarparu'ch rhif Yswiriant Gwladol (NINO). Ni all SLC brosesu'ch cais heb hwn, oni bai eich bod yn fyfyrwr UE. Dylai myfyrwr UE y mae ganddynt NINO ddarparu hwn pan fyddant yn ymgeisio. Bydd SLC yn gofyn i'r Adran Gwaith a Phensiynau gadarnhau hwn er mwyn osgoi ceisiadau twyllodrus.

Yn ogystal, bydd angen i HMRC gael y manylion hyn fel eu bod yn gwybod bod gennych chi fenthyciad myfyrwr a'u bod yn gallu casglu ad-daliadau, neu ofyn i'ch cyflogwr wneud hynny. Os nad oes gennych chi NINO neu os ydych chi wedi'i golli, dylech ffonio llinell gymorth cofrestriadau Yswiriant Gwladol HMRC ar 0300 200 3500.

Dangosir ad-daliadau a gesglir gan eich cyflogwr ar eich slip cyflog. Dylech gadw cofnod o'r taliadau hyn gan nad yw SLC yn cael y manylion hyn gan HMRC nes ar ôl i'r flwyddyn dreth orffen.

Os byddwch yn ymrwymo i un cytundeb benthyciad neu fwy gydag SLC cyn y byddwch yn 18 oed, gofynnir i chi 'gadarnhau'r' cytundeb(au) ar ôl i chi gael eich pen-blwydd yn 18 oed. Mae cadarnhau yn golygu datgan yn ffurfiol eich bod wedi ymrwymo i'r cytundeb benthyciad. Pan fyddwch yn 18 oed neu'n hŷn, byddwch yn cadarnhau unrhyw gytundeb benthyciad yr oeddech wedi ymrwymo iddo cyn yr oeddech yn 18 oed pan fyddwch yn cytuno i amodau a thelerau cyllid myfyrwr pellach. Os ydych chi wedi ymrwymo i gytundeb benthyciad cyn yr oeddech yn 18 oed ac os na fyddwch yn gwneud cais am unrhyw gyllid myfyrwr pellach, bydd SLC yn cysylltu â chi ynghylch y broses gadarnhau er mwyn sicrhau na chaiff eich cymhwystra i gael cyllid yn y dyfodol ei effeithio.

Mae angen i chi ad-dalu eich benthyciad

Yn ôl y gyfraith, rhaid i chi ad-dalu'ch benthyciad yn unol â contract y benthyciad a'r rheoliadau. I'r rhan fwyaf o bobl, cesglir ad-daliadau trwy system dreth y Deyrnas Unedig wrth i gyflogwyr gymryd symiau o'u cyflog trwy gyfrwng system Talu wrth Ennill (PAYE). Os ydych yn hunanasesu, er enghraifft os ydych yn hunangyflogedig, byddwch yn talu ad-daliadau trwy'r trefniadau hunanasesu ar yr un pryd ag y byddwch yn talu eich treth. Os ydych yn byw mewn gwlad dramor, byddwch yn ad-dalu'ch benthyciad i SLC yn uniongyrchol. Mae tudalen 13 yn disgrifio'r broses yn fanylach.

4 Eich cyfrifoldebau chi

Rhwymedigaethau benthyciad

Mae bod yn atebol am eich holl fenthyciad neu am ran ohono yn golygu caiff unrhyw daliadau a delir i chi neu i'ch prifysgol neu goleg eu hychwanegu i falans eich benthyciad. Mae hyn yn golygu y bydd angen i chi ad-dalu'r swm hwnnw a'r llog a fydd wedi cronni pan fydd gofyn i chi ddechrau ad-dalu. Byddwch yn atebol am unrhyw fenthyciad a dalwyd i chi os byddwch yn gorffen eich cwrs neu beidio neu os byddwch yn sicrhau cymhwyster neu beidio.

Benthyciadau Cynhaliaeth

Telir Benthyciadau Cynhaliaeth yn uniongyrchol i chi ar ddechrau pob tymor. Byddwch yn atebol am bob rhandaliad ar ôl iddo gael ei dalu.

Benthyciadau ar gyfer Graddau Meistr Ôl-raddedig

Telir benthyciadau ar gyfer Graddau Meistr Ôl-raddedig yn uniongyrchol i chi ar ddechrau pob tymor. Byddwch yn atebol am bob rhandaliad ar ôl iddo gael ei dalu.

Benthyciadau Ffioedd Dysgu

Os ydych yn fyfyrwr amser llawn, byddwch yn atebol am ganran o'ch Benthyciad Ffioedd Dysgu ar ddechrau pob tymor. Os ydych yn fyfyrwr rhan-amser, byddwch yn atebol am rhandaliad cyntaf eich Benthyciad Ffioedd Dysgu ar ôl i chi fod ar eich cwrs am bythefnos.

Byddwch yn atebol am rhandaliadau yn y dyfodol ar ddechrau ail a thrydydd tymor eich cwrs, fel y nodir yn y tabl isod.

Byddwch yn parhau i fod yn atebol am y swm hwn, hyd yn oed os byddwch yn tynnu'n ôl, yn trosglwyddo neu'n atal eich astudiaethau yn nes ymlaen.

Pryd y byddwch yn atebol	Faint y byddwch yn atebol amdano
Ar ddechrau tymor 1	25% o'r ffi dysgu
Ar ddechrau tymor 2	25% o'r ffi dysgu
Ar ddechrau tymor 3	50% o'r ffi dysgu

Gordaliad grant neu fenthyciad

Telir eich taliadau cyllid myfyrwyr ymlaen llaw er mwyn helpu talu costau'r tymor llawn sydd o'ch blaen.

Os cynhelir ailasesiad o'ch hawl am y flwyddyn academaidd am unrhyw reswm, ac os bydd y swm hwn yn lleihau, gallai hyn olygu y talwyd gormod i chi. Gordaliad yw'r enw am hyn.

Enghraifft

Os oes gennych chi'r hawl i gael Benthyciad Cynhaliaeth o £6,000, telir hwn dros dri thymor.

Telir £2,000 i chi cyn tymor 1.

Telir £2,000 arall i chi cyn tymor 2.

Rydych yn gadael eich cwrs yn ystod tymor 2, ac mae hyn yn golygu nad ydych yn gymwys i gael y £2,000 llawn a dalwyd i chi yn barod. **Mae hyn yn golygu eich bod wedi cael gordaliad.**

Mae hyn yn golygu y bydd angen i chi **ad-dalu'ch gordaliad benthyciad ar wahân** ac yn gynharach na gweddill balans eich benthyciad. Mae hyn yn berthnasol hefyd os oes ad-daliadau'n cael eu cymryd o'ch cyflog neu'ch ffurflen dreth Hunanasesu yn barod.

Mae gordaliadau benthyciadau yn gyfran o gyfanswm eich balans a dalwyd yn barod i chi, ond o ganlyniad i newid yn eich amgylchiadau, mae gofyn eu had-dalu nawr gan nad ydych yn gymwys i'w gael mwyach. Nid cosbau neu daliadau ychwanegol ydynt.

Ni fydd gordaliadau benthyciadau yn rhwym i'r amodau a thelerau ad-dalu arferol. Ar sail rheoliadau'r llywodraeth, mae gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr gyfrifoldeb cyfreithiol i adennill unrhyw ordaliad benthyciad neu grant.

5 Eich cynllun ad-dalu

Bydd y trefniadau ad-dalu sy'n berthnasol i'ch benthyciad yn ddibynnol ar yr adeg pan gychwynoch ar eich cwrs.

Cadwch olwg am y blychau lliw sy'n esbonio'r broses ad-dalu sy'n berthnasol i chi.

Cynllun ad-dalu 1 - Os gwnaethoch chi gychwyn ar eich cwrs cyn 1 Medi 2012

Cynllun ad-dalu 2 - Os gwnaethoch chi gychwyn ar gwrs israddedig amser llawn neu gwrs israddedig rhan-amser ar neu'r ôl 1 Medi 2012

Benthyciad Ôl-raddedig - Os gwnaethoch chi ddechrau cwrs Meistr Ôl-raddedig ar neu wedi 1 Awst 2017 neu gwrs Doethuriaeth ar neu wedi 1 Awst 2018

Cynllun ad-dalu 1

Bydd gofyn i chi ddechrau ad-dalu'ch benthyciad yn ystod y mis Ebrill ar ôl i chi orffen neu adael eich cwrs.

Dim ond pan fydd eich incwm dros y trothwy ad-dalu presennol ar gyfer y Deyrnas Unedig sef £352 yr wythnos, £1,527 y mis neu £18,330 y flwyddyn y byddwch yn dechrau talu ad-daliadau.

Os bydd eich incwm yn gostwng yn is na'r trothwy ad-dalu, bydd ad-daliadau'n stopio ac ni fyddant yn ailgychwyn nes bydd eich incwm dros £18,330.

Bydd y trothwy hwn yn cael ei uwchraddio mewn blynyddoedd i ddod.

Gallwch wneud ad-daliadau gwirfoddol ychwanegol i SLC ar unrhyw adeg hefyd.

Cynllun ad-dalu 2

Os ydych yn fyfyrwr amser llawn, bydd gofyn i chi ddechrau ad-dalu'ch benthyciad yn ystod y mis Ebrill ar ôl i chi orffen neu adael eich cwrs.

Os ydych yn fyfyrwr rhan-amser, bydd gofyn i chi ddechrau ad-dalu'ch benthyciad yn ystod y mis Ebrill ar ôl i chi orffen neu adael eich cwrs neu'r mis Ebrill bedair blynedd ar ôl diwrnod cyntaf eich cwrs (hyd yn oed os ydych yn astudio o hyd), pa un bynnag fydd yn dod yn gyntaf.

Dim ond pan fydd eich incwm dros y trothwy ad-dalu presennol ar gyfer y Deyrnas Unedig sef £25,000 y flwyddyn, £2,083 y mis neu £480 yr wythnos, y byddwch yn dechrau talu ad-daliadau.

Os bydd eich incwm yn gostwng yn is na'r trothwy ad-dalu, bydd ad-daliadau'n stopio ac ni fyddant yn ailgychwyn nes bydd eich incwm dros y trothwy.

Gallwch wneud ad-daliadau gwirfoddol ychwanegol i SLC ar unrhyw adeg hefyd.

Benthyciad Ôl-raddedig (yn cynnwys Ôl-raddedig Gradd Meistr a Doethuriaeth Ôl-raddedig)

Bydd gofyn i chi ddechrau ad-dalu'ch benthyciad yn ystod y mis Ebrill ar ôl i chi orffen neu adael eich cwrs.

Dim ond pan fydd eich incwm dros y trothwy ad-dalu presennol ar gyfer y Deyrnas Unedig sef £21,000 y flwyddyn, £1,750 y mis neu £404 yr wythnos, y byddwch yn dechrau talu ad-daliadau. Os bydd eich incwm yn gostwng yn is na'r trothwy ad-dalu, bydd ad-daliadau'n stopio ac ni fyddant yn ailgychwyn nes bydd eich incwm dros £21,000.

Gallwch wneud ad-daliadau gwirfoddol ychwanegol i SLC ar unrhyw adeg hefyd.

Mae ad-daliadau yn seiliedig ar eich incwm bob mis, nid y swm a fenthycoch. Dylech roi gwybod i'ch cyflogwr pa gynllun ad-dalu sy'n berthnasol i chi, fel bod modd cymryd yr ad-daliadau cywir.

5 Eich cynllun ad-dalu

Cynllun ad-dalu 1

Byddwch yn ad-dalu 9% o'ch incwm dros £352 yr wythnos, £1,527 y mis neu £18,330 y flwyddyn. Os bydd eich incwm yn newid, gan godi neu ostwng, bydd eich symiau ad-dalu yn newid yn awtomatig i adlewyrchu hyn.

Incwm bob blwyddyn cyn treth	Incwm misol cyn treth	Ad-daliad misol yn fras
£18,330	£1,527	£0
£19,000	£1,583	£5
£21,000	£1,750	£20
£24,000	£2,000	£42
£27,000	£2,250	£65
£30,000	£2,500	£87

Cynllun ad-dalu 2

Byddwch yn ad-dalu 9% o'ch incwm dros £480 yr wythnos, £2,083 y mis neu £25,000 y flwyddyn. Os bydd eich incwm yn newid, gan godi neu ostwng, bydd eich symiau ad-dalu yn newid yn awtomatig er mwyn adlewyrchu hyn.

Incwm bob blwyddyn cyn treth	Incwm misol cyn treth	Ad-daliad misol yn fras
£25,000	£2,083	£0
£27,000	£2,250	£15
£29,500	£2,458	£33
£31,000	£2,583	£45
£33,000	£2,750	£60

Benthyciad Ôl-raddedig (yn cynnwys Ôl-raddedig Gradd Meistr a Doethuriaeth Ôl-raddedig)

Byddwch yn ad-dalu 6% o'ch incwm dros £404 yr wythnos, £1,750 y mis neu £21,000 y flwyddyn. Os bydd eich incwm yn newid, gan godi neu ostwng, bydd eich symiau ad-dalu yn newid yn awtomatig er mwyn adlewyrchu hyn.

Incwm bob blwyddyn cyn treth	Incwm misol cyn treth	Ad-daliad misol yn fras
£21,000	£1,750	£0
£22,000	£1,833	£4
£23,500	£1,958	£12
£25,000	£2,083	£19
£27,000	£2,250	£30
£30,000	£2,500	£45

5 Eich cynllun ad-dalu

Ad-dalu os bydd eich incwm yn is na'r trothwy

Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu ad-daliadau benthyciad myfyriwr o hyd os bydd eich incwm yn is na'r trothwy ar gyfer unrhyw gynllun ad-dalu. Bydd hyn yn digwydd os bydd eich incwm yn codi'n uwch na'r trothwy wythnosol neu fisol yn ystod unrhyw gyfnod talu penodedig, er enghraifft os byddwch yn gweithio oriau ychwanegol neu'n cael bonws, a fydd yn golygu bod eich tâl yn uwch na'r trothwy ar gyfer yr wythnos honno neu'r mis hwnnw.

Gallwch wneud cais i SLC am ad-daliad o'r ad-daliadau hyn, ond dim ond os bydd eich incwm blyneddol yn is na'r trothwy ar ddiwedd y flwyddyn dreth. Ni fydd yn hyn yn digwydd yn awtomatig, dylech gysylltu ag SLC i ofyn am ad-daliad.

Talu ad-daliadau ychwanegol

Gallwch dalu ad-daliadau gwirfoddol ar unrhyw adeg.

Fodd bynnag, ni fydd unrhyw ad-daliadau gwirfoddol y byddwch yn eu talu yn effeithio ar y swm a gesglir trwy'r system dreth. Felly, os ydych yn gyflogedig, bydd yn rhaid i'ch cyflogwr gymryd symiau o'ch cyflog o hyd.

Os byddwch yn ad-dalu trwy'r system hunanasesu, bydd yn rhaid i chi ad-dalu'r swm sy'n ddyledus ar sail eich incwm ar gyfer y flwyddyn o hyd.

Ni allwch gael ad-daliad o unrhyw symiau y byddwch yn eu had-dalu'n wirfoddol, oni bai eich bod wedi gorffen talu'ch benthyciad ac rydych wedi ad-dalu gormod.

I gael gwybod sut y gallwch dalu ad-daliadau gwirfoddol, ewch i www.studentloanrepayment.co.uk

Beth os oes gennyf fwy nag un math o gynllun?

Os oes gennych fwy nag un math o fenthyciad, byddwch yn ad-dalu'r rhain ar yr un pryd, ar yr amod bod eich incwm yn uwch na'r trothwy ad-dalu.

Dyma rai enghreifftiau o sut y gallai hyn weithio ar sail y trothwyon presennol yn y Deyrnas Unedig:

Benthyciadau Cynllun 1 a Chynllun 2

Os yw'ch incwm rhwng £18,330 a £25,000, byddwch yn talu ad-daliadau tuag at eich benthyciad Cynllun 1 yn unig. Fodd bynnag, os yw'ch incwm dros £25,000, gwasgarir eich ad-daliadau ar draws eich benthyciadau Cynllun 1 a Chynllun 2.

Benthyciadau Cynllun 2 ac Ôl-raddedig

Os yw'ch incwm dros £21,000 byddwch yn gwneud ad-daliadau tuag at eich Benthyciad Ôl-raddedig yn unig. Os yw'ch incwm dros £25,000, byddwch hefyd yn gwneud ad-daliadau tuag at eich benthyciad Cynllun 2. Byddwch yn ad-dalu 9% o'ch incwm dros £25,000 tuag at eich benthyciad Cynllun 2 a 6% o'ch incwm dros £21,000 tuag at eich Benthyciad Ôl-raddedig.

Canslo Benthyciad Cynhaliath yn rhannol

Os cawsoch chi Fenthyciad Cynhaliath gan Gyllid Myfyriwr Cymru ar unrhyw adeg rhwng blwyddyn academaidd 2010/11 a 2018/19, gallai Llywodraeth Cymru ganslo hyd at £1,500 o falans eich benthyciad myfyriwr pan fyddwch yn dechrau ad-dalu. Am fanylion pellach, ewch i www.slc.co.uk/studentloanrepayment

5 Eich cynllun ad-dalu

Swm y llog a godir arnoch chi

Codir llog arnoch ar y benthyciad o'r diwrnod cyntaf pan delir eich taliad cyntaf nes caiff ei ad-dalu'n llawn neu ei ganslo. Caiff y llog ei gyfrifo'n ddyddiol a'i neilltuo i'r swm sy'n ddyledus bob mis – gelwir hwn yn 'adlog'. Bydd y gyfradd llog a godir arnoch yn ddibynnol ar ba gynllun ad-dalu sy'n berthnasol i'ch benthyciad.

Sylwer: Mae'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) yn mesur chwyddiant yn y Deyrnas Unedig. Mae'n mesur newidiadau i gost byw yn y Deyrnas Unedig.

Cynllun ad-dalu 1

Y gyfradd llog fydd yr RPI yn ystod y mis Mawrth blaenorol, neu 1% yn uwch na chyfradd sylfaenol uchaf grŵp enwebedig o fanciau (Cyfradd Sylfaenol y Banc), pa un bynnag yw'r isaf, ac fe'i pennir ar 1 Medi bob blwyddyn, er y gall newidiadau ddigwydd yn ystod y flwyddyn hefyd. Gellir gweld yr wybodaeth ddiweddaraf a manylaf am gyfraddau llog ar www.slc.co.uk/studentloanrepayment

Cynllun ad-dalu 2

Mae'r gyfradd llog yn seiliedig ar RPI a bydd yn amrywio yn ddibynnol ar eich amgylchiadau.

Eich amgylchiadau	Llog
Tra byddwch yn astudio nes y mis Ebrill ar ôl i chi orffen neu adael eich cwrs.	RPI a 3%
O 6 Ebrill wedi gadael eich cwrs hyd nes bod y benthyciad wedi ei dalu'n llawn.	Caiff y llog ei selio ar eich incwm: <ul style="list-style-type: none">• 25,000 neu'n llai = RPI• rhwng £25,001 a £45,000 = RPI plws hyd at 3% yn dibynnu ar eich incwm• dros £45,000 = RPI plws 3%
Os na fyddwch yn diweddarau eich manylion.	Caiff RPI a 3% ei neilltuo i'ch benthyciad beth bynnag fo'ch incwm, nes bydd gennym yr holl wybodaeth y mae ei hangen arnom.

Benthyciad Ôl-raddedig (yn cynnwys Ôl-raddedig Gradd Meistr a Doethuriaeth Ôl-raddedig)

Codir llog arnoch o'r diwrnod pan fyddwn yn talu'r taliad cyntaf i chi nes caiff eich benthyciad ei ad-dalu'n llawn neu ei ganslo. Codir llog ar gyfradd RPI a 3%.

6 Sut fyddwch yn ad-dalu

Cesglir ad-daliadau trwy system dreth y Deyrnas Unedig (Talu wrth Ennill – PAYE) os ydych yn gyflogedig, neu trwy'r system hunanasesu os ydych yn hunangyflogedig.

Beth sy'n digwydd pan fyddwch yn gyflogedig

Os ydych yn gyflogai sy'n talu treth yn y Deyrnas Unedig, bydd eich cyflogwr yn cymryd ad-daliadau o'ch tâl, ynghyd â threth a chyfraniadau Yswiriant Gwladol, a dangosir y rhain ar eich slip cyflog.

Bydd SLC yn dweud wrth HMRC pan fyddwch yn gorffen neu'n gadael eich cwrs, gan roi manylion iddynt fel eich enw a'ch rhif Yswiriant Gwladol. Bydd HMRC yn cadarnhau a ydych yn gweithio ac os ydych, byddant yn dweud wrth eich cyflogwr bod gennych chi fenthyciad (ond ni fyddant yn nodi'r swm).

Yn ogystal, efallai y dywedir wrth gyflogwyr bod angen iddo wneud didyniadau trwy ffurflenni treth arferol. Pan fyddwch yn newid swydd neu'n dechrau gweithio, efallai y bydd eich hen gyflogwr yn rhoi P45 i chi. Yn yr achos hwn, dylai'ch cyflogwr diwethaf nodi 'Y' yn y blwch benthyciad myfyriwr er mwyn hysbysu'ch cyflogwr newydd y dylai ddechrau cymryd didyniadau benthyciad myfyriwr. Efallai y bydd eich cyflogwr newydd yn gofyn i chi gwblhau datganiad cychwyn hefyd cyn y gall ddechrau talu'ch cyflog.

Yn ogystal, dylech hysbysu'ch cyflogwr newydd fod gennych chi fenthyciad myfyriwr.

Sut mae cyflogwyr yn gwybod faint i'w ddidynnu o'ch tâl?

Bydd HMRC yn rhoi gwybodaeth i'ch cyflogwr fel bod modd iddo gyfrifo faint i'w gymryd o'ch tâl.

Os yw'ch tâl yn uwch na'r trothwy ad-dalu perthnasol yn ystod y cyfnod talu, bydd eich cyflogwr yn cymryd ad-daliadau ac yn eu trosglwyddo i HMRC. Ar ôl diwedd pob blwyddyn, bydd eich cyflogwr yn anfon Cyflwyniad Talu Llawn terfynol at HMRC. Mae gan HMRC tan ddiwedd y flwyddyn dreth newydd i ddychwelyd yr wybodaeth hon at SLC a fydd yna'n diweddar eich cyfrif. Gall hyn gymryd amser oherwydd y nifer fawr o Gyflwyniadau Talu Llawn terfynol mae HMRC yn eu derbyn gan gyflogwyr pob blwyddyn, er bod y mwyafrif yn cael eu prosesu o fewn 6 mis. Fodd bynnag, defnyddir yr ad-daliadau a dalwyd gennych i ad-dalu'ch benthyciad ar gyfer y flwyddyn y tynnwyd y didyniadau o'ch cyflog.

Bydd SLC yn sicrhau bod swm cywir y llog wedi cael ei ychwanegu i'ch cyfrif, felly ni chodir unrhyw log ychwanegol arnoch hyd yn oed os bydd eich manylion ad-dalu yn cymryd ychydig amser i gyrraedd SLC.

Mae'n bwysig deall caiff ad-daliadau a gaiff eu cymryd gan eich cyflogwr eu cyfrifo ar sail cyfnodau tâl unigol ac nid ar gyfanswm eich incwm am flwyddyn gyfan. Mae hyn yn golygu, os ydych yn cael eich talu bob mis, caiff ad-daliadau eu cymryd a'u cyfrifo fesul mis.

Os ydych yn cael credydau treth, nid yw'r rhain yn cyfrif fel incwm i gyfrifo'ch ad-daliad benthyciad myfyriwr.

Dim ond pan fyddant yn cael Cyflwyniad Tâl Llawn terfynol eich cyflogwr y bydd HMRC yn gwybod y cyfanswm y mae'ch cyflogwr wedi'i gymryd dros y flwyddyn dreth gyfan. Mae'r cynllun yn gweithio mewn ffordd debyg i ddiyniadau treth. Bydd angen i chi gadw cofnod o'r swm sy'n cael ei gymryd o'ch tâl bob mis, oherwydd ni fydd SLC na HMRC yn gwybod y swm sy'n ddyledus o hyd ar eich benthyciad nes bydd eich cyflogwr wedi anfon y Cyflwyniad Tâl Terfynol i HMRC ac mae HMRC wedi trosglwyddo'r wybodaeth i SLC. Mae gan gyflogwyr gyfrifoldeb cyfreithiol i anfon symiau cywir yr ad-daliadau benthyciad myfyriwr i HMRC. Gall fod rhaid iddynt dalu dirwyon os na fyddant yn gwneud hynny.

Beth sy'n digwydd os byddwch yn newid swydd

Pan fyddwch yn newid swydd, efallai y bydd eich cyflogwr blaenorol yn rhoi P45 i chi ac yn nodi 'Y' yn y blwch 'Parhau didyniadau Benthyciad Myfyriwr'. Os yw'ch incwm yn uwch na'r trothwy ad-dalu, bydd eich cyflogwr newydd yn dechrau cymryd didyniadau benthyciad myfyriwr o'r diwrnod talu cyntaf sydd ar gael. Os nad oes gennych chi P45, efallai y bydd eich cyflogwr yn gofyn i chi lenwi datganiad cychwyn, sy'n cynnwys blwch ticio i ddangos bod gennych chi fenthyciad myfyriwr. Rhaid i chi roi tic yn y blwch neu ddweud wrth eich cyflogwr newydd fod gennych chi fenthyciad myfyriwr.

Os na fydd eich ad-daliadau'n cychwyn pryd y dylent, dylech roi gwybod i'ch cyflogwr. Os bydd y broblem yn parhau, dylech gysylltu ag SLC gan nodi manylion eich cyflogwr newydd, fel enw a chyfeiriad, Cyfeirnod PAYE a rhif cyflogres. Gellir gweld yr wybodaeth hon ar eich slip cyflog, eich P60 neu trwy siarad â'ch adran gyflogres. Os ydych yn hunangyflogedig, bydd HMRC yn gallu dweud wrthych sut y dylech fod yn talu ad-daliadau. Os byddwch yn gweithio y tu allan i'r Deyrnas Unedig am dros dri mis, ewch i dudalen 13 am wybodaeth ynghylch sut i dalu ad-daliadau.

Beth fydd yn digwydd os bydd busnes eich cyflogwr yn dod i ben neu os na fydd yn talu'ch didyniadau i HMRC

Ar yr amod bod gennych chi dystiolaeth o'r ffaith bod didyniadau wedi cael eu cymryd, fel slipiau cyflog, bydd SLC yn credydu swm llawn yr ad-daliadau i'ch cyfrif.

Beth sy'n digwydd os ydych yn hunangyflogedig

Os ydych yn hunangyflogedig, byddwch yn anfon ffurflen dreth i HMRC bob blwyddyn dan y system hunanasesu (SA). Bydd eich ad-daliadau benthyciad myfyriwr yn ddyledus fel rhan o'ch bil SA am dreth. Mae'r ad-daliad benthyciad myfyriwr yn seiliedig ar eich holl incwm gros a oedd yn uwch na'r trothwy perthnasol, gan gynnwys eich holl incwm nas enillwyd (er enghraifft, incwm difidend gan gyfranddaliadau) os yw'n werth dros £2,000 y flwyddyn. Mae rhai pwyntiau cyffredinol i'w cofio wrth gyfrifo'ch incwm bob blwyddyn:

- Ni ystyrir incwm eich gŵr, eich gwraig, eich partner, eich rhiant neu unrhyw berthynas arall.
- Ni ystyrir incwm o Fudd-dal Plant a budd-daliadau anabled, gan gynnwys lwfans Cyflogaeth a Chymorth.
- Ni ystyrir credydau treth.
- Os byddwch yn talu ad-daliadau gwirfoddol, bydd yn rhaid i chi dalu ad-daliadau trwy'r system SA o hyd.

Cyflogeion y bydd HMRC yn gofyn iddynt lenwi ffurflenni hunanasesu hefyd

Os ydych yn gyflogai sy'n llenwi ffurflen dreth dan y system hunanasesu (SA) hefyd, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu rhai ad-daliadau benthyciad gyda'r ffurflen, yn ogystal â'r rhai y bydd eich cyflogwr yn eu cymryd. Mae cyfanswm y benthyciad myfyriwr fydd yn rhaid i chi ad-dalu am y flwyddyn yn seiliedig ar gyfanswm eich incwm ar gyfer y flwyddyn – hynny yw, eich holl incwm PAYE priodol ac unrhyw incwm ychwanegol ac unrhyw incwm nas enillwyd (os yw'n werth mwy na £2,000 y flwyddyn).

Gallwch hawlio credyd yn eich ffurflen dreth am unrhyw symiau benthyciad myfyriwr y mae'ch cyflogwr eisoes wedi'u cymryd yn ystod y flwyddyn, fel na fyddwch yn ad-dalu gormod.

Yn yr un modd â PAYE, bydd y system SA yn cyfrifo'ch ad-daliadau benthyciad ar sail eich incwm dros y trothwy perthnasol. Bydd unrhyw daliad SA yn ddyledus ar 31 Ionawr yn dilyn blwyddyn dreth eich asesiad. Gallwch weld gwybodaeth ynghylch sut i lenwi'ch ffurflen SA yn y canllawiau a ddarparir gan HMRC. Os na fydd HMRC yn anfon ffurflen dreth atoch, ni fydd yn rhaid i chi dalu ad-daliadau pellach yn ychwanegol i'r rhai y mae'ch cyflogwr yn eu cymryd yn barod.

Os ydych yn talu treth yn y Deyrnas Unedig ac os ydych yn cael ffurflen dreth hunanasesu, dylech ddefnyddio hon er mwyn datgan am ad-daliadau benthyciad myfyriwr. Rhaid i chi lenwi'r ffurflen hon yn gywir a'i dychwelyd mewn pryd. Rhaid i chi dalu'ch ad-daliad benthyciad myfyriwr a'ch treth mewn pryd hefyd.

Os na fyddwch yn gwneud hyn, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu llog a chosbau ariannol. Mae hyn oherwydd caiff benthyciadau myfyriwr eu trin yn yr un ffordd â threth at ddibenion y ffurflen hon.

Beth sy'n digwydd os byddwch yn teithio neu'n gweithio mewn gwlad dramor

Os nad ydych yn talu treth yn y Deyrnas Unedig neu os ydych yn bwriadu gadael y Deyrnas Unedig am dros dri mis ar unrhyw adeg ar ôl i chi orffen neu adael eich cwrs (os bydd hyn am gyfnod dros dro neu oherwydd y byddwch yn byw mewn gwlad arall), byddwch yn talu ad-daliadau i SLC yn uniongyrchol. Rhaid i chi roi gwybod i SLC cyn i chi adael y Deyrnas Unedig. Os na fyddwch yn gwneud hynny, gallant godi taliadau cosb ar eich benthyciad ac yn ôl yr angen, gofyn i chi ad-dalu swm llawn y benthyciad a llog a chosbau, fel un cyfandaliad.

Bydd SLC yn gofyn am fanylion eich incwm a bydd yn cyfrifo faint y dylech ei ad-dalu bob mis. Byddant yn newid eich incwm i bunnoedd sterling ac yn dweud wrthyfych y swm y bydd angen i chi ei ad-dalu bob mis mewn punnoedd sterling. Byddwch chi'n gyfrifol am dalu unrhyw gostau sy'n ymwneud â throsi'r arian a bydd yn rhaid i chi dalu unrhyw daliadau a godir gan eich banc er mwyn trosglwyddo cronfeydd i SLC.

Pryd caiff eich benthyciadau eu canslo

Ceir amgylchiadau pan gellir canslo eich benthyciad myfyriwr, ac ni fydd yn rhaid i chi ei dalu'n ôl, megis os byddwch yn marw cyn i chi ad-dalu'r benthyciad neu os byddwch yn mynd yn anabl ac yn methu gweithio'n barhaol. Efallai caiff eich benthyciad ei ganslo ar ôl cyfnodol penodol hefyd. Mae hyn yn ddibynnol ar y rheolau ar yr adeg pan gawsoch fenthyciad ac a ydych wedi talu'r holl ad-daliadau dyledus hyd yn hyn.

Cynllun ad-dalu 1

Os cawsoch y benthyciad cyn 1 Awst 2006, caiff balans eich benthyciad sy'n weddill ac unrhyw log ei ganslo pan fyddwch yn cyrraedd 65 oed.

Os cawsoch y benthyciad ar neu ar ôl 1 Medi 2006 ond cyn 1 Medi 2012, caiff balans eich benthyciad sy'n weddill ac unrhyw log ei ganslo 25 o flynyddoedd ar ôl y mis Ebrill pan oedd gofyn i chi ddechrau ad-dalu'r benthyciad.

Ym mhob achos, rhaid eich bod wedi talu'r holl ad-daliadau sy'n seiliedig eich incwm tan y dyddiad hwnnw. Os na, mewn amgylchiadau penodol, gallai SLC yn adennill unrhyw symiau sy'n ddyledus o hyd tan y dyddiad hwnnw.

Cynllun ad-dalu 2

Caiff unrhyw fenthyciad a llog sy'n weddill 30 o flynyddoedd ar ôl bod angen i chi ddechrau talu ad-daliadau ei ganslo. Rhaid eich bod wedi talu'r holl ad-daliadau seiliedig ar eich incwm tan y dyddiad hwnnw. Os na, mewn rhai achosion, gallai SLC yn adennill unrhyw symiau sy'n ddyledus o hyd tan y dyddiad hwnnw.

Benthyciad Ôl-raddedig (yn cynnwys Ôl-raddedig Gradd Meistr a Doethuriaeth Ôl-raddedig)

Caiff unrhyw fenthyciad a llog sy'n weddill 30 o flynyddoedd ar ôl yr oedd gofyn i chi ddechrau talu ad-daliadau ei ganslo. Rhaid eich bod wedi talu'r holl ad-daliadau seiliedig ar eich incwm tan y dyddiad hwnnw. Os na, mewn rhai achosion, gallai SLC yn adennill unrhyw symiau sy'n ddyledus o hyd tan y dyddiad hwnnw.

Caiff eich amserlen ad-dalu fisol ei chyfrifo gan ddefnyddio'r un rheolau â'r rhai a ddefnyddir ar gyfer y rhai sy'n aros yn y Deyrnas Unedig. Felly byddwch yn ad-dalu 9% o'ch incwm dros y trothwy ad-dalu ar gyfer benthyciadau cynllun 1 a chynllun 2 a 6% o'ch incwm dros y trothwy tuag at unrhyw Fenthyciadau Ôl-raddedig. Oherwydd y gwahaniaethau mewn costau byw, gallai'r trothwy ad-dalu mewn gwlad arall fod yn wahanol i'r trothwy ar gyfer y Deyrnas Unedig.

Cyfradd ad-dalu sefydlog

Os na fyddwch yn rhoi manylion eich incwm i SLC, efallai y codir swm sefydlog arnoch, a allai fod yn uwch na'r swm ad-dalu sy'n ddyledus ar sail eich incwm go iawn. Os na fyddwch yn ad-dalu'r swm hwn, efallai y bydd SLC yn cymryd camau cyfreithiol yn eich erbyn.

Os hoffech gael gwybod mwy am yr amgylchiadau er mwyn canslo benthyciadau, ewch i www.slc.co.uk/studentloanrepayment

Beth sy'n digwydd os na fyddwch yn talu ad-daliadau

Yn ôl y gyfraith, rhaid i chi ad-dalu'ch benthyciad yn unol â rheoliadau a chontract y benthyciad. Os na fyddwch yn talu ad-daliadau, mae gan SLC yr hawl i gymryd camau cyfreithiol er mwyn adennill eich dyled. Mae hyn yn golygu y gall SLC gael gorchymyn llys er mwyn mynnu eich bod yn ad-dalu'r cyfanswm a llog a chosbau ar ffurf un taliad.

Gellir gorfodi hyn trwy'r llysoedd fel dyled sifil os ydych yn byw yn y Deyrnas Unedig neu'n byw mewn gwlad dramor, a byddwch yn gyfrifol am dalu'r holl gostau.

Dod i ben ad-dalu eich benthyciad – osgoi gordalu

Yn ystod y pedwar i'r 23 mis olaf o ad-dalu'ch benthyciad, gallwch newid i ad-dalu trwy drefniant Debyd Uniongyrchol. Bydd hyn yn golygu y byddwch yn annhebygol o ordalu eich benthyciad.

Bydd SLC yn ceisio cysylltu â chi yn fuan cyn yr adeg hon er mwyn cynnig y dewis hwn i chi. Fodd bynnag, os ydych yn gwybod eich bod yn agosáu at y pwynt hwn, dylech gysylltu ag SLC er mwyn trefnu ad-dalu'ch balans yn y fath ffordd. Yna, bydd yn rhaid i chi dalu eich Debyd Uniongyrchol bob mis ar y dyddiad a gytunwyd. Os na fyddwch yn talu'r taliad, efallai y bydd SLC yn tynnu'r dewis hwn yn ôl, a bydd yn rhaid i chi ddychwelyd i'r trefniant o ad-dalu'ch benthyciad trwy PAYE. I gael gwybod mwy am y cynllun debyd uniongyrchol, ewch i www.slc.co.uk/studentloanrepayment

Gordalu

Bydd SLC yn gwneud popeth y gall i sicrhau na fyddwch yn gordalu ar ddiwedd eich benthyciad. Fodd bynnag, os nad ydych chi wedi cysylltu â nhw i osod dyddiad i stopio'r ad-daliadau neu i newid i ad-dalu trwy Ddebyd Uniongyrchol, byddwch yn debygol o ad-dalu gormod. Os bydd hyn yn digwydd, byddwch yn cael ad-daliad llawn o'r gordaliadau gyda llog.

Cynllun ad-dalu 1

Os oes gennych chi falans credyd pan gaiff eich benthyciad ei ad-dalu'n llawn, telir llog ar yr un gyfradd ag y caiff ei godi ar eich cyfrif sef RPI neu 1% dros Gyfradd Sylfaenol y Banc, pa un bynnag yw'r isaf.

Ar ôl diwedd y flwyddyn dreth, bydd SLC yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu o'r ffaith y bydd llog yn cronni am 60 diwrnod pellach ar sail RPI. Ar ôl y 60 diwrnod, ni ychwanegir unrhyw log pellach i'r balans credyd ar eich cyfrif.

Cynllun ad-dalu 2

Os oes gennych chi falans credyd pan gaiff eich benthyciad ei ad-dalu'n llawn, telir llog ar gyfradd RPI. Ar ôl diwedd y flwyddyn dreth, bydd SLC yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu o'r ffaith y bydd llog yn cronni am 60 diwrnod pellach ar sail RPI. Ar ôl y 60 diwrnod, ni ychwanegir unrhyw log pellach i'r balans credyd ar eich cyfrif.

Benthyciad Ôl-raddedig (yn cynnwys Ôl-raddedig Gradd Meistr a Doethuriaeth Ôl-raddedig)

Os oes gennych chi falans credyd pan gaiff eich benthyciad ei ad-dalu'n llawn, bydd SLC yn ysgrifennu atoch i'ch hysbysu y bydd llog yn cronni am 60 diwrnod pellach ar sail RPI plws 3%. Ar ôl y 60 diwrnod, ni ychwanegir unrhyw log pellach i'r balans credyd ar eich cyfrif.

7 Beth i'w wneud os byddwch yn anfodlon

Os nad ydych yn fodlon â'r ffordd y cesglir eich ad-daliadau, dylech gysylltu ag SLC. Gallwch gofrestru cwyn trwy:

- ffonio **0300 100 0601**,
- anfon e-bost at **customer_complaints@slc.co.uk** neu
- ysgrifennu at:

Customer Relations Unit,
Student Loans Company,
100 Bothwell Street,
Glasgow,
G2 7JD

Gellir lawrlwytho ffurflen Cwyn Cwsmer Ar-lein ar **www.slc.co.uk** Ar ôl defnyddio'r weithdrefn hon, os byddwch yn anfodlon o hyd, gellir cynnal adolygiad annibynnol o'ch achos. Fel arfer, bydd y canlynol yn delio ag adolygiadau annibynnol:

- yr Aseswr Benthyciadau Myfyrwyr am wasanaethau a ddarparir gan y Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr
- y Dyfarnwr am wasanaethau a ddarparir gan HMRC
- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (gweler **www.ombudsman-wales.org.uk**)

Apeliadau

Mae'r rhain yn wahanol i gwynion. Efallai y byddwch yn teimlo'n fodlon am sut y deliwyd â'ch cyfrif ond yn teimlo bod penderfyniad anghywir wedi ei wneud am eich cyfrif, ac rydych yn dymuno apelio.

Yn yr un modd â chwynion, mae gan SLC weithdrefnau i ddelio ag apeliadau a dylech ddilyn y rhain. Mae'r Aseswr Benthyciadau Myfyrwyr yn delio ag apeliadau a wneir yn erbyn gwasanaethau a ddarparir gan SLC hefyd.

Mewn amgylchiadau penodol, efallai y byddwch yn ystyried defnyddio'r system gyfreithiol, er enghraifft, llys sirol, i ddatrys eich problem.

Os hoffech wneud hyn, dylech gael cyngor cyfreithiol annibynnol yn y lle cyntaf, er enghraifft gan gyfreithiwr, canolfan cyngor cyfreithiol neu Gyngor ar Bopeth.

8 Cysylltiadau defnyddiol

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am ad-dalu, ewch i www.slc.co.uk/studentloanrepayment neu ffoniwch **0300 100 0370** rhwng 8am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Os ydych yn byw yng Nghymru

Gallwch droi at www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk neu ffonio canolfan gyswllt ddwyieithog Cyllid Myfyrwyr Cymru i gael gwybodaeth gyffredinol am fenthyciadau myfyrwyr. Ffoniwch **0300 200 4050** rhwng 8am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

Os ydych yn byw mewn gwlad dramor

Dylech ffonio Tîm Ewropeaidd y Gwasanaethau Cyllid i Fyfywyr ar **0141 243 3570**.

Yn ogystal, gallwch ysgrifennu atynt, at:

Student Finance Services European Team,
PO box 89,
Darlington,
County Durham,
Lloegr,
DL1 9AZ

Cyllid a Thollau EM

Ar ôl i chi ddechrau ad-dalu'ch benthyciad, os bydd gennych chi unrhyw gwestiynau am sut y cesglir eich ad-daliadau trwy'r system dreth, siaradwch â'ch cyflogwr neu cysylltwch â HMRC gan ddefnyddio'r rhifau a restrir ar www.hmrc.gov.uk

Gallwch lawrlwytho rhagor o gopiâu o'r canllaw hwn ar-lein ar www.cyllidmyfyrwrycymru.co.uk.

Gallwch hefyd archebu ffurflenni a chanllawiau mewn Braille, print mawr neu sain trwy anfon e-bost yn cynnwys eich manylion ac yn nodi pa ffurflen a fformat rydych ei hangen at brailleandlargefonts@slc.co.uk neu gallwch ein ffonio ar **0141 243 3686**.

Sylwer, dim ond ceisiadau am fformatau amgen o'n ffurflenni a chanllawiau y bydd y cyfeiriad e-bost a'r rhif ffôn uchod yn ymdrin â nhw.

WG34251

ISBN 978-1-78903-622-0

SFW/SLTC/V18/D